**Vikki Howells AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**Minister for Further and Higher Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1507
Ein cyf VH/00053/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Chwefror 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch Deiseb P-06-1507 mewn perthynas â chynlluniau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i adleoli ei darpariaeth Dyniaethau o'i champws yn Llanbedr Pont Steffan i'w champws yng Nghaerfyrddin. Rwy'n ateb gan fod y mater hwn yn rhan o'm portffolio i.

Mae hwn yn gyfnod anodd i'r sector addysg uwch yng Nghymru ac ar draws y DU, wrth i sefydliadau addysg uwch wynebu pwysau ariannol ac angen dod o hyd i ffyrdd o ymateb i'r heriau hyn.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gynigion i ail-lunio ei darpariaeth ar gampws Llambed. Roedd y cynigion hyn yn cynnwys symud darpariaeth Dyniaethau'r Brifysgol i'w champws yng Nghaerfyrddin. Barn y Brifysgol yw nad yw darpariaeth Llanbedr Pont Steffan yn gynaliadwy. Ystyrir bod symud i Gaerfyrddin yn strategol, gan ganiatáu cymysgedd o'r Dyniaethau â disgyblaethau eraill (gyda'r bwriad o adfywio portffolio'r Dyniaethau), a chynnig profiad mwy bywiog i fyfyrwyr.

Ysgrifennodd Is-Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yr Athro Elwen Evans KC, ataf ar 23 Ionawr i gadarnhau bod y Brifysgol wedi cymeradwyo'r cynnig i adleoli ei darpariaeth Dyniaethau o Lanbedr Pont Steffan i Gaerfyrddin, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol ag undebau llafur a'r staff yr effeithir arnynt. Rwyf wedi cael gwybod bod y Brifysgol yn cychwyn ar baratoadau ac ystyriaethau ymarferol ar gyfer y newid hwn sydd i ddod, er mwyn sicrhau cyfnod pontio esmwyth fel bod darpariaeth y Dyniaethau yn dechrau'r flwyddyn academaidd yn ei chartref newydd yng Nghaerfyrddin ym mis Medi 2025.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vikki.Howells@llyw.cymru
Correspondence.Vikki.Howells@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cydnabod yr effaith y gallai'r cynlluniau hyn ei chael ar staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, fel sefydliad ymreolaethol, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gyfrifol am ei materion academaidd ei hun, gan gynnwys rheolaeth strategol o'i hystâd. Ni fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn materion sy’n ymwneud â darparu cyrsiau a lleoliad y campws.

Rwy'n deall bod y staff a'r myfyrwyr yn cael eu cefnogi. Rwyf wedi ei gwneud yn glir i'r Brifysgol fy mod yn disgwyl gweld egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn cael eu gweithredu yn ogystal â chefnogi myfyrwyr sydd wedi'u lleoli yn Llanbedr Pont Steffan i barhau â'u hastudiaethau, gan sicrhau'r amhariad lleiaf tra bo'r cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu. Mae gan y Brifysgol wasanaethau cymorth ar waith i staff a myfyrwyr yr effeithir arnynt er mwyn iddynt allu codi eu pryderon yn uniongyrchol.

Rwyf hefyd yn cydnabod y pryder y gallai'r cyhoeddiad hwn gael effaith negyddol ar yr economi leol, yn enwedig canol tref Llanbedr Pont Steffan. Rwy'n cydnabod bod y Brifysgol wedi bod yn Llanbedr Pont Steffan ers dros 200 mlynedd, ar ôl cael ei sefydlu yn 1822, ac mae wedi chwarae rhan bwysig yng ngwead economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol y dref ers blynyddoedd lawer. Mae'r Brifysgol yn glir nad yw'n cau campws Llambed ac yn nodi ei bod wedi ymrwymo i gadw prif ystâd campws Llambed. Rwy'n ymwybodol bod cyfnod o feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid ac â'r gymuned leol yn Llanbedr Pont Steffan bellach wedi dechrau, i nodi gweithgareddau cynaliadwy sy'n gysylltiedig ag addysg ar gyfer dyfodol y campws.

Rwy'n bwriadu parhau i fod mewn cysylltiad â'r Brifysgol wrth i'r cynlluniau fynd yn eu blaen.

Yn gywir,

**Vikki Howells AS/MS**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch